


# CREU CYMRU

*Disgrifiad Swydd*
*Ymddiriedolwr*



# PWY YDYN NI?

Mae Creu Cymru yn hyrwyddo'r celfyddydau perfformio yng Nghymru. Mae ein haelodaeth yn agored i holl theatrau a chanolfannau celfyddydau'r genedl a reolir yn broffesiynol a chwmnïau cynhyrchu ac unigolion, a hynny ar raddfa fawr a mân.

Yn bennaf oll, rhwydwaith cydweithredol yw Creu Cymru; rydyn ni'n rhannu gwybodaeth, arbenigedd, ymchwil, teithio, eiriolaeth... ac yn anad dim, awydd i ddatblygu rhaglenni a chynulleidfaoedd. Rydyn ni'n gweithio gyda'n gilydd i gefnogi adnodd sy'n fwyfwy cydnerth ar ganol cymunedau ar draws Cymru.

**Ein ffocws yw:**

Cydraddoldebau, amrywiaeth a chynhwysiant
Eiriolaeth, ymchwil ac effaith
Datblygu'r gweithlu, gwaith teg a llesiant
Datblygu cynulleidfaoedd a chysylltiad cymunedol
Arddangos a dathlu
Yr amgylchedd a chynaliadwyedd

## *Cenhadaeth & Gweledigaeth*

**Cenhadaeth**

**Cryfhau'r celfyddydau perfformio yng Nghymru.**

**Gweledigaeth**

Bod yn rhwydwaith bywiog a blaenllaw o weithwyr proffesiynol yn y celfyddydau perfformio ar draws Cymru. Bydd y rhwydwaith yma'n datblygu ac yn hyrwyddo ymhellach werth a chydnabyddiaeth o bwysigrwydd y celfyddydau i gymunedau drwy gysylltu pobl, hyrwyddo syniadau, hybu arweinyddiaeth a thrwy ddatblygu aelodaeth amrywiol ac ymgysylltiedig.



Mae Creu Cymru yn chwilio am grŵp amrywiol o bobl i ymuno â ni a fydd yn gallu helpu i arwain a chefnogi ein tîm wrth i ni adolygu ein strwythur aelodaeth ac aelodaeth agored i Gwmnïau ac unigolion.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Creu Cymru wedi bod yn mynd drwy broses ailddatblygu sydd wedi arwain at adolygu ein rhaglen a'n rheolaeth. Rydym nawr yn bwriadu ehangu ein cylch gwaith aelodaeth i gynnwys cwmnïau cynhyrchu, i ddod â'r sector celfyddydau perfformio at ei gilydd i siarad â llais unedig, i rannu adnoddau ac arbenigedd, ac i hyrwyddo gwaith ar y cyd.

Drwy greu'r ecosystem unedig hon drwy ehangu'r aelodaeth, gobeithir cael cynrychiolaeth traws-sector, cydweithrediadau newydd, cysoni buddiannau, a phartneriaethau newydd; popeth sy'n teimlo'n bwysicach nag erioed yng Nghymru yn dilyn y 12 mis diwethaf.

Drwy sefydlu'r strwythur newydd hwn, mae angen i ni sicrhau bod y bwrdd yn cynrychioli'r sefydliad newydd a'i gylch gwaith aelodaeth, er mwyn cynnwys lleoliadau, cwmnïau ac unigolion.

Yn benodol, rydym yn annog pobl ag anableddau a phobl o gefndiroedd ethnig neu ddiwylliannol amrywiol o bob cwr o Gymru i ymgeisio, gan ein bod yn awyddus i'r Bwrdd a'n gwaith gael eu llywio gan y cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu, a chynrychioli'r cymunedau hynny.

# GWYBODAETH YMDDIRIEDOLWYR

Bydd Creu Cymru yn ceisio sicrhau na fydd neb yn cael ei drin yn llai ffafriol oherwydd bod ganddynt nodwedd warchodedig, fel y'i diffinnir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Yn benodol, rydym yn annog ceisiadau gan siaradwyr Cymraeg a chan bobl sydd â phrofiad uniongyrchol o wahaniaethu oherwydd hil, hunaniaeth o ran rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, crefydd, cenedligrwydd, tarddiad ethnig, anabledd neu oedran. Rydyn ni wedi ymrwymo i fodloni gofynion mynediad; rhowch wybod i ni beth sydd ei angen arnoch chi.

Mae'r sgiliau allweddol rydym yn awyddus i'w recriwtio yn cynnwys y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt):

- Arbenigedd a gwybodaeth am y sector celfyddydol a diwylliannol yng Nghymru.
- Arbenigedd a gwybodaeth am reolaeth ariannol.
- Arbenigedd a gwybodaeth am gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Does dim rhaid i chi fod â phrofiad blaenorol o fod ar Fwrdd. Ar gyfer unrhyw ymgeisydd llwyddiannus sydd heb fod yn ymddiriedolwr o'r blaen, byddai mentora a hyfforddiant ar gael.

I wneud cais, llenwch y Ffurflen Monitro Cyfle Cyfartal a'i hanfon gyda CV a llythyr eglurhaol, yn amlinellu pam yr hoffech chi fod yn Ymddiriedolwr, a'r sgiliau sydd gennych i'w cynnig i'r rôl at yvonne@creucymru.com

Os hoffech chi drafod y cyfle hwn yn fanylach, cysylltwch ag Yvonne a fydd yn trefnu amser i chi siarad ag aelod o'r bwrdd, neu Louise Miles-Payne, Cyfarwyddwr





# DISGRIFIAD SWYDD YMDDIRIEDOLWR

## *Prif Gyfrifoldebau*

- Chwarae rhan allweddol yn natblygiad gweledigaeth Creu Cymru ar gyfer y dyfodol, gan gyfrannu at ei arweinyddiaeth strategol, ei reolaeth gadarn a'i ddatblygiad.
- Bod yn llysgennad cadarnhaol a brwdfrydig ar ran y sefydliad, gan eirioli ar ei ran a chynrychioli ei genhadaeth.
- Mynd ati i gefnogi'r agwedd tuag at Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant.
- Cefnogi ymdrechion codi arian a datblygu rhwydweithiau ar ran Creu Cymru.
- Cefnogi ac, mewn rhai achosion, arwain y berthynas â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol.

## *Manyleb y Person*

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn eiriolwr deinamig dros Creu Cymru a bydd yn meddu ar bob un o'r canlynol, neu'r rhan fwyaf ohonynt:

- Gwybodaeth am y celfyddydau perfformio a brwdfrydedd drostynt
- Ymrwymiad amlwg i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- Y gallu i fod yn gyfathrebwr a llysgennad effeithiol
- Parodrwydd i godi proffil Creu Cymru
- Gyda llawer o gysylltiadau ac yn fodlon defnyddio cysylltiadau proffesiynol a phersonol er budd Creu Cymru

## *Cyfrifoldeb cyffredinol*

- Bod yn gyfrifol am reoli Creu Cymru yn effeithiol ac yn effeithlon, yn unol â gofynion y gyfraith.
- Cynnal gwerthoedd ac amcanion Creu Cymru.
- Gwasanaethu buddiannau Creu Cymru, ei randdeiliaid a'i gleientiaid.
- Defnyddio a rhoi barn annibynnol er budd Creu Cymru.



# DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU PENODOL

**Gweithredu fel gwarcheidwad y sefydliad**

- Bod yn ymwybodol o nodau, gwerthoedd ac amcanion Creu Cymru, a'u cefnogi.
- Sicrhau bod Creu Cymru yn cydymffurfio â'i rwymedigaethau yn unol â'r gyfraith, ac yn glynu wrthynt.
- Gwneud penderfyniadau amserol er budd y sefydliad, yn unol â'i reolau sefydlog a'i reoliadau ariannol.
- Sicrhau bod y sefydliad yn gweithredu'n briodol ac yn unol â'r safonau a ddisgwylir gan ei aelodau, ei randdeiliaid a'i gyllidwyr.
- Deall a chefnogi cyfrifoldebau cyfreithiol a pholisïau mewnol y sefydliad yng nghyswllt Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant a Dwyieithrwydd.
- Darparu cefnogaeth a bwrdd seinio i'r staff.


**Polisi a Strategaeth**

- Cyfrannu at ddatblygu polisi a strategaeth fusnes y sefydliad.
- Pennu amcanion a gweithdrefnau'r Bwrdd ar gyfer monitro cynnydd.

**Atebolrwydd sefydliadol**

- Sicrhau y cydymffurfir â'r Memorandwm a'r Erthyglau Cymdeithasol.
- Gweithredu rheolaeth ariannol a defnyddio adnoddau yn y ffordd fwyaf effeithlon.
- Rhoi sylw i safbwyntiau a gofynion y rhanddeiliaid, eu parchu a'u gweithredu.
- Glynu wrth bolisïau'r sefydliad.
- Trin pob mater sy'n ymwneud ag achosion, busnes a phenderfyniadau'r Bwrdd yn gyfrinachol, oni bai fod penderfyniad y Bwrdd yn caniatáu fel arall.
- Datgan unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau personol pan fydd hynny'n berthnasol i fusnes y Bwrdd.

# DYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU PENODOL



**Monitro, goruchwylio a rheoli**

- Sefydlu a goruchwylio fframwaith ar gyfer dirprwyo, awdurdodi a rheoli.
- Cytuno ar bolisïau a gwneud penderfyniadau ar bob mater sy'n ymwneud â risg ariannol neu sy'n effeithio ar faterion o egwyddor.
- Monitro perfformiad y sefydliad mewn perthynas â'i gynlluniau, ei reolaethau ariannol a'i benderfyniadau.
- Asesu perfformiad, ail-werthuso strategaethau, pennu blaenoriaethau a rhoi camau cywiro ar waith.

**Rôl allanol**

- Cynrychioli Creu Cymru a gweithredu fel Llysgennad i hyrwyddo ei nodau, ei amcanion a'i bolisïau.
- Mynd ati i hyrwyddo a rhoi cyhoeddusrwydd i lwyddiannau a chyflawniadau Creu Cymru.
- Mynd i ddigwyddiadau yn ôl yr angen.



# TREFNIANT CYTBWYS
# AELOD BWRDD/STAFF

**Ymrwymiad yr Ymddiriedolwyr:**

Dylai Cyfarwyddwyr:

- Weithredu er budd Creu Cymru yn unig.
- Datgan pob buddiant sy'n gwrthdaro, neu sydd o bosibl yn gwrthdaro.
- Parchu awdurdod ar y cyd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a pheidio â gweithredu'n unochrog.
- Parchu cyfrinachedd.
- Sicrhau eich bod ar gael ar yr amser angenrheidiol.
- Defnyddio sgiliau a phrofiad er budd y cwmni.
- Mynd i gyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd.
- Cefnogi'r Cyfarwyddwr a rheolwyr y cwmni.
- Lle bo'n briodol, herio rheolwyr, ond i wneud hynny mewn ffordd adeiladol bob amser a gweithredu er budd gorau'r cwmni yn unig.
- Gweithio mewn partneriaeth â staff i gyflawni cenhadaeth Creu Cymru. Deall a pharchu rolau gwahanol ond cyflenwol Ymddiriedolwyr a staff.
- Myfyrio'n rheolaidd ac ar y cyd ynghylch sut mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cyflawni ei gyfrifoldebau ac yn llywodraethu'r cwmni.



# TREFNIANT CYTBWYS
## AELOD BWRDD/STAFF

**Ymrwymiad Tîm y Staff**

Bydd y Staff yn:

- Rhoi gwybodaeth amserol o ansawdd uchel i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, er mwyn iddo allu gwneud penderfyniadau gwybodus.
- Rhoi cyngor amserol i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr gan sicrhau bod ymgynghorwyr proffesiynol allanol ar gael yn ôl yr angen.
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr am yr heriau sydd ar y gorwel a newidiadau yn yr amgylchedd allanol a allai effeithio ar y cwmni.
- Gweithio mewn partneriaeth â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i sicrhau ei fod yn cyflawni ei holl gyfrifoldebau moesol, statudol a chyfreithiol.
- Buddsoddi amser ac adnoddau eraill i helpu i ddatblygu llywodraethu da.
- Sicrhau bod llawlyfr Staff / Cyfarwyddwr Creu Cymru ar gael ac yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd.
- Gweithio mewn partneriaeth â phwyllgorau perthnasol i sicrhau bod Ymddiriedolwyr newydd yn cael hyfforddiant cynefino a chefnogaeth, a bod pob briff, hyfforddiant a chyhoeddiadau perthnasol ar gael i bob Ymddiriedolwr.
- Rhoi'r gefnogaeth weinyddol angenrheidiol i'r swyddogion anrhydeddus a'r Ymddiriedolwyr, a'r gefnogaeth arall sydd ei hangen arnynt i lywodraethu'n dda.

# CYTUNDEB YMDDIRIEDOLWYR

**Mae gennych hawl fel Ymddiriedolwr i wneud y canlynol:**

- Cael statws cyfartal a hawliau pleidleisio gyda'r holl Ymddiriedolwyr eraill
- Derbyn hyfforddiant sy'n ymwneud ag unrhyw faes o waith y Bwrdd.

**Eich cyfrifoldebau unigol yw:**

- Mynd i gyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd. Os nad ydych yn gallu bod yn bresennol, dylech ymddiheuro i'r Cadeirydd.
- Deall nodau ac egwyddorion y sefydliad a bod yn gwbl ymroddedig iddynt.
- Herio pob digwyddiad sy'n groes i bolisi cyfle cyfartal y sefydliad.
- Sicrhau bod y gofrestr Datgan Buddiannau yn cael ei llofnodi os oes angen.
- Lle bo'n bosibl, i gymryd rhan o waith y Bwrdd drwy gynnig cyfranogi mewn gweithgor o'r Bwrdd.
- Cefnogi pob penderfyniad ar ôl i'r Bwrdd gytuno arnynt.
- Parchu cyfrinachedd materion a thrafodaethau'r Bwrdd.

**Eich cyfrifoldebau ar y cyd â'r Ymddiriedolwyr eraill yw:**

- Gweithredu fel cyflogwyr ar ran staff y sefydliad a derbyn cyfrifoldeb cyfreithiol amdanynt.
- Penderfynu ar bolisi cyffredinol gwaith y sefydliad o fewn y canllawiau a bennir gan yr aelodau.
- Bod yn fodlon bod y sefydliad, o fewn cyfyngiadau adnoddau, yn cyflawni ei nodau.
- Cymryd darlun tymor hir ar sut y dylai gwaith y sefydliad ddatblygu.
- Ceisio sicrhau bod y cyllid ar gyfer y sefydliad yn parhau.
- Sicrhau bod holl gyfrifoldebau'r Ymddiriedolwyr sy'n cael eu dirprwyo i staff cyflogedig ac aelodau unigol y sefydliad yn cael eu cyflawni.
- Datgan unrhyw fuddiannau a allai arwain at wrthdaro wrth wasanaethu ar y Bwrdd.